# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-05-06(p.3)

### Dyddiad: 15 Mawrth 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Rhaglen Waithe Ddrafft ar Gyfer Tymor Yr Haf 2006

#### Diben

Gwahodd y Pwyllgor i roi sylwadau ar raglen waith arfaethedig tymor yr haf 2006.

#### Cefndir

Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn gorchymyn y pwyllgorau pwnc i gynnal rhaglen waith dreigl dros gyfnodau o ddeuddeg mis o leiaf. Lluniwyd y rhaglen ar awgrymiadau gan yr Aelodau, pwyntiau gweithredu ac eitemau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

#### Trafodaeth

Fel y gwyddoch, pleidleisiodd y Cyfarfod Llawn dros dderbyn y strwythur diwygiedig sef bod y pwyllgorau'n cyfarfod bob pythefnos heb slotiau ychwanegol o fis Ionawr 2006. Rydym wedi darparu'r rhaglen ddrafft ar y sail y bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn ystod pob yn ail gyfarfod ynghyd â dod ag unrhyw bapurau'r Llywodraeth yn ôl ei dymuniad, ac rydym wedi amserlennu gwaith adolygu polisi a chyflwyniadau ar gyfer y cyfarfodydd eraill.

Mae'r rhaglen ddrafft yn cynnwys digon o le ar gyfer cyflwyniadau gan sefydliadau y mynegodd aelodau ddiddordeb ynddynt ac ystyriwyd angen y Gweinidog am hysbysu, ymgynghori a derbyn barn y Pwyllgor ar rai pynciau.

Dywedodd y Cadeirydd y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod y tu allan i Fae Caerdydd y tymor hwn a bydd yn hysbysu'r Aelodau ynghylch hyn ar ôl ystyried yr amserlen.

Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar y rhaglen waith ddrafft ar gyfer tymor yr haf a gofynnir iddynt nodi unrhyw eitemau ychwanegol yr hoffent eu cynnwys.

Cylchredir copïau o'r Flaenraglen Waith gytûn i Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc yn unol â Rheol Sefydlog 9.9.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Mawrth 2006